# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

**RHAN 5**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

**29 Dod i rym**

(1) Daw'r adran hon ac adran 30 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a benodir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 mewn grym ar 2.6.2020, gweler **a. 29(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 29.